

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

# Dod i adnabod

## Myfanwy Alexander



Magwyd Myfanwy Alexander yng Nghefn Coch yn Sir Drefaldwyn. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf, *A Oes Heddwch?* yn 2015, *Pwnc Llosg* yn 2016 a *Y Plygain Olaf* yn 2017. Fel sgwennwr a darlledwr mae wedi cyfrannu i sawl rhaglen radio a theledu, gan gynnwys nifer o raglenni comedi a dychan. Enillodd wobr Sony am y gyfres gomedi *The LL Files* i Radio Wales yn 1999. Hi yw hanner tîm Cymru ar y *Round Britain Quiz* ar Radio 4.

### Crynodeb:

All yr Arolygydd Daf Dafis ddim meddwl am well ffordd i ymlacio na threulio diwrnod yng nghwmni ei deulu, ymhell o helbulon gorsaf yr heddlu. Ond wrth iddo deithio drwy fwynder Maldwyn ar drên bach ar diwrnod braf o wanwyn, daw rhywbeth i ddryllio'r heddwch ...



### Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu'r llyfr hwn?

Yr ysbrydoliaeth fwyaf oedd tirlun a phobol Sir Drefaldwyn, ond roedd dau bwnc yn y newyddion wedi fy niddori i, sef y cynllun Prevent, sy'n gorfodi athrawon i chwilio am bobol ifanc eithafol, a'r problem o dwyllo yn y gemau Para-Olympaidd. Roeddwn yn gwybod y byddai Daf Dafis yn poeni am Prevent a Garmon am y gemau Para-Olympaidd. Hefyd, roeddwn yn stiwardio mewn dawn CFFI ac wedi clywed dyn tân rhan-amser yn trafod rôl rheilffordd Tal-y-Llyn wrth ddelio gyda thanau mawr ar yr ucheldiroedd sych yn ystod hafau poeth.

### Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.

Yn y brif stori, mae'r Arolygydd Daf Dafis yn ceisio darganfod pwy roddodd bom ar y rheilffordd fach rhwng Llanfair Caereinion a'r Trallwng. Cyn bo hir, mae'r digwyddiad yn cael ei ddisgrifio fel brawychiaeth, felly rhaid i Daf ymdopi efo cydweithwyr newydd o MI6 a hefyd amddiffyn pobol ddiueg rhag casgliadau hiliol. Yn yr isblot gyntaf, ferch ifanc anabl sy'n ceisio hel tystiolaeth gan ddyn sy'n 'hyfforddi' athletwyr i'r gemau para-Olympaidd. Ydy Tallullah yn ddigon dewr i hel y dystiolaeth er iddi gael ei thrin yn greulon? 'Achos oer' yw'r ail isblot: cydweithwr newydd Daf, sef DC Toscano sydd angen gwybodaeth am ddiflaniad brawd ei nain yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Hefyd, mae cysgodion Rhyfel Cartref Sierra Leone yn ymestyn hyd at Lanfair Caereinion.



[carreg-gwalch.cymru](http://carreg-gwalch.cymru)



Llyfrgelloedd Cymru  
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A  
ar wefan

[llyfrgelloedd.cymru](http://llyfrgelloedd.cymru)